Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr perchnogion

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion gan Grantiau a Thrwyddedau, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2009

Cynnwys

BWW Smallwoods
Taith y Gweinidog
Diweddariad ariannol
Croeswirio a Chyfeirnodau Cwsmer
Newidiadau i'r Cynllun Taliad Sengl
CGG ar waith
Cwynion
Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i Berchenogion
Arolygu hawliadau
Y tîm gwasanaethau technegol
Manylion cysylltu

Y rhifynnau nesaf:

Issue 4 January 2010

Mae'r rhifyn cyfredol a rhifynnau blaenorol ar gael ar wefan CCC:
www.forestry.gov.uk/wales

Ychwanegiad newydd at deulu Coetiroedd Gwell i Gymru

Cyflwynwyd proses syml ychwanegol ar gyfer y cynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru ym mis Mai 2009, a bydd yn cael ei lansio'n swyddogol yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Mae wedi'i hanelu'n arbennig at ffermwyr a pherchenogion coetiroedd bach sy'n awyddus i gael cyflwyniad i reolaeth coetir. Yr enw ar y broses newydd hon yw 'Coedwigoedd Bychain Coetiroedd Gwell i Gymru'.

"Mae gan goetiroedd bach Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran creu rhagor o orchudd coetir a dod â rhagor o goetiroedd o dan reolaeth gynaliadwy i helpu i ymladd newid yn yr hinsawdd," meddai Richard Siddons, Pennaeth Grantiau a Rheoliadau yng Nghymru. Mae bron i hanner coetiroedd Cymru mewn dwylo preifat ac rydym yn awyddus i annog y perchenogion i reoli eu coetiroedd presennol mewn ffordd gynaliadwy, i fanteisio ar ein cynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru a chreu 1,500 hectar o goetir newydd yn ystod y tair blynedd nesaf," ychwanegodd.

Croesewir ceisiadau gan berchenogion nad yw eu coetiroedd yn fwy nag 20 hectar a gall hyn gynnwys plannu newydd a rheoli eu coetir presennol. Yr ardal leiaf sy'n gymwys ar gyfer grant yw 0.25 hectar. Gall coetiroedd a oedd gynt yn cael eu rheoli dan Gynllun Grant Coetir y Comisiwn Coedwigaeth hefyd ddod yn rhan o 'Coedwigoedd Bychain CGG'. Mae holl grantiau presennol Coetiroedd Gwell i Gymru ar gael dan 'Coedwigoedd Bychain CGG'.

NEWYDDION PWYSIG

Mae datganiad i'r wasg a ryddhawyd ym mis Mai wedi achosi peth penbleth! Nid yw Coetiroedd Gwell i Gymru yn un o'r cynlluniau amaeth-amgylchedd a gaewyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae CGG yn dal ar agor a byddem yn ddiolchgar felly pe baech yn parhau i baratoi a chyflwyno eich ceisiadau.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Gweinidog yn gweld rhai o gynlluniau Coetiroedd Gwell i Gymru

***Coetir Coed Cwm**, Ken Smith, Swyddog Coetir, Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Dr Wolfgang Schaefer.*

***Fferm Glanmiheli** Rachel Chamberlain, Rheolwr Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Geraint Powell, y Gweinidog Elin Jones, Evelyn Over, Cynlluniwr Rheoli*

***Glanhafren**, Morris Rogers, Hywel Rogers, a'r Gweinidog Elin Jones*

Bu Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar ymweliad â Phowys ym mis Mai a chyfarfu â ffermwyr a pherchenogion coetiroedd bach a oedd yn elwa ar gynllun grant Coedwigoedd Bychain (CGG) a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer coetiroedd Cymru ac sy'n helpu i gwrdd â nodau 'Coetiroedd i Gymru' sef strategaeth Cynulliad Cymru ar gyfer coetiroedd a choed.

Nod y strategaeth yw annog cynnydd mewn coetiroedd brodorol a chymysg a dod â rhagor o goetiroedd brodorol o dan reolaeth weithredol, a rhoddodd y prosiectau ym Mhowys a ariennir gan CGG gyfle i'r Gweinidog weld tair enghraifft o sut y cyflawnir hyn drwy arfer da.

I ddechrau, aeth y Gweinidog ar ymweliad â Choetir Coed Cwm ger Dolfor, lle bu'r perchenogion, Dr Wolfgang Schaefer a Kingsley George, yn dangos y ddau hectar o goed pren caled a blannwyd 15 mlynedd yn ôl ar gyfer eu cynaeafu. Ar ôl iddynt sefydlu, prynodd y ddau 3 hectar o goetir hynafol yn 2007, a reolir yn bennaf i annog bioamrywiaeth. Cynhyrchodd Evelyn Over, y cynlluniwr rheoli, gynllun sydd wedi denu grant ar gyfer gwaith gan gynnwys ffensio, creu llwybr mynediad ar gyfer gweithrediadau rheoli, rheoli'r wiwer lwyd i leihau'r difrod i'r coed llydanddail, rheoli rhedyn a thocio'r coed pren caled yn uchel i gynyddu eu gwerth ar gyfer eu cynaeafu.

Mae'r perchenogion eisoes yn gweld ffrwyth eu llafur. Bu cynnydd mawr yn nifer y coed brodorol sydd wedi hunan-hadu ac yn nifer y blodau gwyllt ar ôl cau'r anifeiliaid allan ac mae eu costau tanwydd yn llawer llai. 'Rydym yn hollol hunangynhaliol erbyn hyn gan ein bod yn cael coed ar gyfer ein system wresogi drwy reoli ein coetiroedd yn gynaliadwy' meddai Dr Schaefer wrth y Gweinidog.

Yna aeth y daith ymlaen i Fferm Glanmiheli ger Ceri, y Drenewydd, lle mae Geraint ac Anabel Powell wedi adnewyddu dau goetir cysgodol ar eu fferm 200 hectar at ddibenion cadwraethol ac er mwyn darparu cysgod ar gyfer eu 500 o ddefaid croesryw Cymreig a Beulah a'r 80 o loi sugno. Torrwyd y coed a'u hailblannu o dan y cynllun CGG gyda chymysgedd o gonwydd a choed llydanddail ar ôl ffensio'r safle i gadw'r anifeiliaid allan. Mae'r Powelliaid yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r tir sy'n eu cynnal a'r gwaith nesaf a ariennir gan y cynllun CGG fydd rhagor o ailblannu a theneuo coed aneconomaidd a blannwyd ym 1998.

Taith olaf y dydd oedd ymweliad â Glanhafren, coetir 20 hectar a brynodd Mr a Mrs Morris Rogers gan y Comisiwn Coedwigaeth ym 1998. Mae'r ddau'n hanu o sir Drefaldwyn a, gyda chymorth eu meibion, yn rhedeg cwmni tractorau a pheiriannau llwyddiannus. Mae gan Mr Rogers, sy'n cofio'r coed yn cael eu plannu, atgofion melys iawn am Lanhafren, a dangosodd safle hen feithrinfa goed y Comisiwn Coedwigaeth, lle tyfid y coed, i'r Gweinidog. Mae croeso hefyd i bobl leol ymweld â'r coetir a mwynhau'r profiad o gerdded drwy'r lle tawel hwn.

Bydd y teulu'n dechrau cynaeafu rhai o'r coed aeddfed a choed o ansawdd da eleni. Bydd y cynllun grant yn gymorth tuag at y gost o ailblannu'r ardaloedd a gwympwyd a chynnal y llwybrau. Bydd Hywel, mab Mr Rogers, yn defnyddio cymaint â phosibl o'r coed ar gyfer codi ffensys ar ei fferm 41 hectar. Bydd y tanwydd coed hefyd yn adnodd defnyddiol i'r teulu.

Meddai Elin Jones, "Roeddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i weld sut mae grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru yn helpu ffermwyr a pherchenogion coetiroedd bach i reoli'r coed ar eu tir. Yn ogystal â helpu i sicrhau'r manteision amgylcheddol sy'n un o nodau'r strategaeth Coetiroedd i Gymru, mae hefyd yn dod â manteision gwerthfawr i gymdeithas ac, wrth gwrs, yn rhoi cyfle economaidd pwysig i ffermwyr mewn cyfnod o ansicrwydd."

Adborth

Os oes gennych unrhyw adborth cyffredinol yr hoffech ei ddwyn i'n sylw, a fyddech cystal ag anfon e-bost at alison.evans@forestry.gsi.gov.uk. A fyddech hefyd cystal â chysylltu â mi os oes gennych awgrymiadau ar gyfer rhifynnau o'r newyddlen yn y dyfodol.

A ydych yn cael unrhyw broblemau gyda'r cynllun CGG? A wyddoch chi ble i gael cymorth? Ceir cyfoeth o wybodaeth ar bob agwedd ar y cynllun ar ein gwefan. Gellir dod o hyd i lyfrgell gyfeiriol CGG yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6upk3s.

Newidiadau i'r Cynllun Taliad Sengl (CTS) ar gyfer plannu newydd

Gwnaed newidiadau pwysig i'r Cynllun Taliad Sengl a fydd yn effeithio ar goetiroedd fferm. Gall ffermwyr yn awr ddefnyddio tir a dynnwyd allan o gynhyrchu amaethyddol ar gyfer plannu newydd dan CGG, i gefnogi hawliadau'n ymwneud â hawliau CTS, cyn belled â bod y tir wedi cael ei ddefnyddio i hawlio taliad CTS yn 2008. Gellir defnyddio'r tir ar gyfer hawliadau CTS drwy gydol y cynllun CGG. Mae hyn yn berthnasol hefyd i goetiroedd dan y cynllun Tir Gofal lle cedwir anifeiliaid allan.

Diweddariad Ariannol CGG Mehefin 2009

Fel y gwyddoch, mae grantiau CGG ar gyfer y flwyddyn hawlio 09/10 bellach wedi'u hymrwymo. Os oes gennych gynllun lle mae'r gwaith eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer 09/10, gallwch ddal i gyflwyno'ch hawliad, unwaith y mae'r gwaith wedi'i wneud. Os nad yw eich cynllun wedi'i gymeradwyo hyd yma, ni fydd y gwaith yn cael ei gymeradwyo ar gyfer blwyddyn hawlio 09/10 a bydd yn cael ei drosglwyddo i flwyddyn arall yn lle hynny. Mae'r crynodeb isod yn dangos y lefel o gyllid sydd wedi'i ymrwymo ar gyfer y 3 blynedd nesaf, fel y mae'r sefyllfa ar ddiwedd Mai 2009.

Blwyddyn	Cyllideb	Wedi'i ymrwymo	Wedi'i ymrwymo	Talwyd	Talwyd
09/10	£3,060,000	£3,595,258	117%	£115,130	4%
10/11	£3,240,000	£1,759,720	54%		
11/12	£3,280,000	£1,160,144	35%		

Rydym yn awyddus i sicrhau bod arian sydd wedi'i ymrwymo yn cael ei wario. Felly, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw weithrediadau a gymeradwywyd na fyddant yn digwydd yn ystod 09/10 gan ddefnyddio'r ffurflen Newidiad (FM02). Dylid llenwi'r ffurflen a'i e-bostio i bww.ts@forestry.gsi.gov.uk neu ei phostio at Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Swyddfa Ardal Gogledd Cymru, Clawdd Newydd, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2NL. Ar ôl derbyn y wybodaeth hon byddwn yn gallu ailddyrannu cyllid i weithgareddau a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 09/10.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o achosion CGG lle mae'r gwaith eisoes wedi'i gwblhau, neu a fydd yn cael ei gwblhau cyn y flwyddyn hawlio a glustnodwyd. Rydym yn llunio rhestr wrth gefn o'r achosion hyn, a byddwn yn ailddyrannu arian pan fydd ar gael.

I'r diben hwn, rydym wedi datblygu ffurflen i chi, neu eich asiant, i roi gwybod i ni am unrhyw waith sydd wedi'i gwblhau neu a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 09/10. Os ydych yn dymuno cael copi, a fyddech cystal â gofyn am gopi gennym gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod.

Byddwn yn blaenoriaethu'r rhestr wrth gefn o achosion yn erbyn themâu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru er mwyn penderfynu ym mha drefn y byddwn yn ailddyrannu unrhyw arian a ryddheir. Byddwn yn edrych ar y rhestr wrth gefn yn rheolaidd a byddwn yn rhoi gwybod i chi os gellir newid eich achos i flwyddyn hawlio 09/10.

Croeswirio, Cofrestru tir a Chyfeirnodau Cwsmer

Cyn ein bod yn talu grantiau CGG, mae'n ofynnol o dan Reoliadau yr UE bod yr achos CGG yn cael ei groeswirio yn erbyn yr holl gynlluniau eraill a gaiff gymorth grant dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Pwrpas y croeswirio yw sicrhau na wneir taliad dwbl. Er enghraifft, gall ffens newydd dderbyn grant dan un cynllun yn unig. Mae cofrestru tir yn rhan hanfodol o'r broses hon. Bydd gofyn i bob perchennog coetir fod wedi'i gofrestru er mwyn cael Cyfeirnod Cwsmer gydag Is-adran Taliadau Gwledig Cynulliad Cymru cyn y gellir cymeradwyo ei gynllun rheoli CGG.

Rydym newydd ddiweddaru ein Cyfarwyddyd ar Gofrestru Tir a Chroes-wirio, **'Guidance on Land Registration and Cross-checking' (GOH13)** a gellir dod o hyd iddo yn llyfrgell gyfeiriol CGG yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YMLKH.

Nid proses gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yw darparu Cyfeirnod Cwsmer a chofrestru eich tir. I wneud cais, a fyddech cystal â chysylltu â'r Is-adran Taliadau Gwledig yng Nghaernarfon, Caerfyrddin neu Landrindod a gofyn am ffurflenni REG10, CDW, FM3 a C21.

CGG ar waith

Coed Springhill Simon Roscoe, y contractwr a Peter Farthing, y perchennog, yn trafod eu rhaglen waith

Young broadleaves at Springhill Farm

Coed Springhill
Mae Peter Farthing wedi bod yn byw yn ardal hardd a thawel Glyn Ceiriog ers dros 25 mlynedd. Cafodd y dyffryn hwn yng ngogledd Cymru, nad yw ond ychydig filltiroedd o'r ffin â Lloegr a phrifforddd yr A5, ei ddisgrifio gan Lloyd George fel 'rhan fach o'r nefoedd ar y ddaear'.

Yn ogystal â thir pori, mae tir Peter yn cynnwys planhigfa fawr o goed sbriws, llarwydd a chonwydd, a arferai fod yn eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae ar lethr hynod o serth, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i weithio yma. Roedd newydd ddechrau teneuo'r coetir pan darodd 'Corwynt Lothar' ym mis Rhagfyr 1999, a gwneud dinistr mawr, fel mewn nifer o goedydd eraill drwy Ewrop.

Ond nid oedd Peter yn barod i roi'r ffidil yn y to, a chysylltodd â Julian Miller, Cynlluniwr Rheoli CGG. Gyda chynllun tymor hir, a diolch i waith contractwyr lleol ardderchog, cliriwyd y pentyrrau enfawr o goed wedi cwympo a helpodd CGG i dalu am ailblannu â choed ifanc. Yr her nesaf i'w wynebu oedd ymosodiadau'r gwiddon pinwydd. Daeth y contractwyr, Simon a Stuart Roscoe, o Venture Forestry i'r adwy, ac aed ati i drin y difrod ac i ailblannu ble'r oedd angen. Yn ffodus, roedd Peter wedi plannu cymysgedd o rywogaethau, ac er i'r llarwydd a'r sbriws ddioddef yn enbyd, mae'r coed ynn a'r deri wedi adfer ar ôl cael eu trin rhag difrod pellach.

"Mae'r ffaith bod y grant CGG yn cael ei dalu'n hynod o brydlon ar ôl i chi gyflwyno'r hawliad wedi bod o gymorth mawr i dalu am y llwybrau a'r gwaith ffensio sy'n darparu'r isadeiledd sy'n hanfodol ar gyfer rheoli'r coetiroedd," meddai Peter.

Mae'r ardaloedd presennol o goetir brodorol wedi cael eu ffensio er mwyn cau'r anifeiliaid allan a rhoi cyfle i goed brodorol aildyfu ac mae CGG wedi helpu hefyd i ariannu'r gwaith plannu newydd ar y fferm.

Teneuo yng Ngilfach Orfydd

Teneuo yng Ngilfach Orfydd

Gilfach Orfydd
Yn 2006, pan gerddodd Carl a Helen Platel i'w coetir ym Morgannwg Ganol, roedd yn lle tywyll a distaw. Nid oedd y coetir wedi cael ei reoli ers 50 mlynedd o leiaf, ac ychydig iawn o fywyd gwyllt a blodau gwyllt oedd yma oherwydd gorbori.

Fel nifer o goetiroedd hynafol yng Nghymru, fe'i torrwyd i lawr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf i gyflenwi'r coed yr oedd mawr eu hangen, ac fe'i gadawyd yn segur ers hynny. Adeiladwyd tramffordd drwy'r coed flynyddoedd lawer yn ôl, i gludo glo i Ben-y-bont ar Ogwr, ond rhoddwyd y gorau i'r cynllun ar ôl darganfod ffawt fawr yn yr haenen lo. Er nad yw cynhyrchu glo yn ystyriaeth hyfyw ar gyfer y tir, mae Carl a Helen bron â bod yn hunangynhaliol o ran defnyddio coed i gynhyrchu egni. Maent yn prynu boiler biomas i ddarparu'r holl egni y bydd ei angen ar gyfer y tŷ a'r adeiladau ar y fferm. "Mae'n deimlad braf gwybod ein bod yn helpu'r amgylchedd ac nid ydym yn gorfod poeni bellach bod prisiau tanwydd yn codi" meddai Carl. Mae cynlluniau mwy ar y gweill hefyd. Bydd Carl a Helen nid yn unig yn cynhyrchu eu hegni eu hunain, ond mae ganddynt hefyd gynlluniau i gyflenwi tanwydd i'r orsaf bŵer biomas ym Mhort Talbot.

Yn sgil rhaglen deneuo i ganiatáu i fwy o olau dreiddio at lawr y goedwig, mae coed brodorol wedi dechrau tyfu o'r newydd yn yr ardaloedd a gliriwyd ac mae'r adar a'r blodau gwyllt wedi dychwelyd. "Mae'r gwaith teneuo wedi hybu twf y coed sy'n weddill, ond ni fyddwn wedi gallu gwneud y gwaith heb gymorth CGG," meddai Carl. Mae'r cynllun hwn o eiddo'r CCC hefyd wedi helpu i ariannu'r gwaith o blannu 2,500 o goed brodorol newydd mewn rhannau eraill o'r fferm, ac felly ni ddylai prinder coed fod yn broblem yn y dyfodol.

Gyda chymorth a brwdfrydedd eu Cynlluniwr Rheoli CGG, sef Gareth Henson o Goed Cymru, a chymorth grant gan CGG, mae'r coetiroedd yn awr yn gyforiog o fywyd gwyllt. "Y peth cyntaf y byddaf i'n ei wneud pan fydd pobl yn galw draw yw mynd â hwy i weld y coed," meddai Carl. "Mae'r newid sydd wedi digwydd mewn llai na 3 blynedd yn anhygoel."

Y drefn gwyno

Mae'r holl Arbenigwyr a Chynllunwyr Rheoli wedi arwyddo Cod Ymarfer.
Os ydych chi'n anhapus gyda pherfformiad Cynlluniwr neu Arbenigwr, dylech ddilyn y drefn gwyno isod a geir ar wefan CCC: http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6ldg9. Bydd cwynion a wneir yn erbyn Cynlluniwr neu Arbenigwr yn cael eu bwydo i'r broses 'Cynnal Safonau' a chymerir camau gan ddefnyddio'r cyfarwyddyd a amlinellir yn y broses.

Defnyddio'r Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i Berchenogion

Os ydych yn dymuno dilyn cynnydd eich cynllun CGG neu wneud hawliad ar-lein ar ôl cwblhau'r gwaith, gallwch logio i mewn a chofrestru ar ein Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i Berchenogion.

Mae'r llwybr i gofrestru drwy ein gwefan ac, ar ôl i chi gwblhau proses gofrestru syml unwaith-yn-unig, anfonir e-bost atoch i gadarnhau eich enw defnyddiwr a chyfrinair a fydd yn eich galluogi i logio i mewn i'r system yn llwyddiannus ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i chi.

I gofrestru, gall perchenogion neu asiantau gyrchu gwefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ddefnyddio'r cyswllt www.eforestry.gov.uk.

Dewiswch y Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein – gwneud hawliad am grant ar-lein ac yna dewiswch cliciwch yma i gofrestru.

Rhaid i chi yn awr ddefnyddio'r enw defnyddiwr a chyfrinair i logio i mewn i'r system ac, i wneud y cyfrif yn llwyr weithredol, bydd angen i chi ffonio neu anfon e-bost at y tîm Gwasanaethau Technegol a rhoi gwybod iddynt eich bod chi'n ddefnyddiwr newydd. Bydd y tîm yna'n eich cysylltu chi, fel perchennog, â'ch achos eich hun, a byddwch yn gallu gweld manylion y cynllun yn llawn.

Cofiwch, os ydych yn cael problemau gyda'r drefn uchod, anfonwch e-bost at ein tîm Gwasanaethau Technegol bww.ts@forestry.gsi.gov.uk gan gofio rhoi eich rhif ffôn.

Cymorth

Os oes gennych broblem dechnegol gyda'r gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS), a fyddech cystal ag anfon e-bost at ein tîm Gwasanaethau Technegol yn bww.ts@forestry.gsi.gov.uk. Gallwn ymateb yn gynt os rhoddwch eich rhif ffôn ar eich ymholiad.

Pwy yw pwy yn y tîm Gwasanaethau Technegol?

O'r chwith i'r dde: rhes flaen Menna Jones, Carol Jones, Liz Watt, rhes ôl Rhian Corlett, Sam Milner

Ymagwedd CGG at grantiau, arolygu hawliadau a chosbau

Nodyn i'ch atgoffa y dylai perchenogion sy'n dymuno gwneud hawliadau naill ai drwy'r system Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein neu ar bapur wneud hawliad ar gyfer gwaith a gwblhawyd yn unig yn unol â'u contract CGG. Gallwch hawlio ar gyfer gwaith a gymeradwywyd yn y flwyddyn gyfredol, 09/10, yn unig. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r broses o hawlio eich grant a fyddech cystal â chysylltu â'ch asiant neu gynlluniwr rheoli yn y lle cyntaf. Gweler yr erthygl isod, 'Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i Berchenogion' i ddarganfod sut i gofrestru a hawlio ar-lein.

Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth gyfrifoldeb i sicrhau bod arian Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arian UE a ddyrennir drwy CGG yn cael ei wario'n briodol. Mae CCC felly yn archwilio canran o'r holl hawliadau yn seiliedig ar ofynion yr UE a LICC. Mae'r drefn archwilio yn arf rheoli allweddol sy'n sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn briodol ac yn lleihau'r perygl o gamddefnyddio arian.
Ceir gwybodaeth am y broses o ddewis hawliadau ar gyfer eu harchwilio yn y ddogfen: AT22 'Hawliadau grant ac arolygiadau / Grant claims and inspections a welir yn llyfrgell gyfeiriol CGG http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YMLKH

Arolygiadau ffurfiol heb rybudd ymlaen llaw sydd orau gennym, ond, os yw'r swyddog arolygu yn teimlo fod problem o ran mynediad neu ddiogelwch, gall roi hyd at 48 awr o rybudd. Pan fo angen gwneud arolygiad maes, bydd yr aelod o staff CCC yn asesu'r hawliad yn erbyn y gwaith fel y'i nodwyd ar y contract CGG ac unrhyw reolau busnes a manylebau technegol perthnasol. Bydd hawliadau sy'n gofyn am arolygiad yn cael eu harolygu o fewn 28 diwrnod. Ceir cosb os bydd hawliad yn methu'r arolygiad. A fyddech cystal â defnyddio'r cyswllt uchod i fynd i'r ddogfen sy'n manylu ar y cosbau a'r hyn a ganiateir o ran mân wallau gweithredol a diffyg cywirdeb wrth fapio.

Manylion cysylltu...

Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu ewch i: www.forestry.gov.uk/cymru
Ymholiadau technegol: E-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
Gwasanaeth GLOS: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
ac amawgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bostiwch alison.evans@forestry.gsi.gov.uk